The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | Awel y Môr |
| **Cyfeirnod ffeil** | EN010112 |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 24 Mehefin 2021 |
| **Cyfarfod gydag** | Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfod diweddariad ar y prosiect |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

Amlinellodd yr Ymgeisydd yr agenda a'r pynciau trafod ar gyfer y cyfarfod.

## Atgoffa o'r prosiect / cyd-destun

Rhoddodd yr Ymgeisydd ystadegau ynglŷn â lleoliad y prosiect a disgrifiodd gynnydd o ran dewis safle ar gyfer yr aráe a llwybr y ceblau alltraeth. Ers y cyfarfod blaenorol â'r Arolygiaeth, mae'r Ymgeisydd wedi dileu pen gorllewinol yr aráe o'i Derfynau Gorchymyn o ganlyniad i ymgynghoriad diweddar ynglŷn â dewis safle. Trafodwyd mireinio llwybr y ceblau ar y tir ymhellach, gan gadw dewisoldeb ynglŷn â phwyntiau allweddol. Bydd Terfynau'r Gorchymyn, fel y'u rhagwelir ar hyn o bryd, yn destun Ymgynghoriad Statudol yn ddiweddarach eleni.

## Diweddariad ar y prosiect

<u>Cynllunio ymgynghoriad statudol</u>

Esboniodd yr Ymgeisydd y bwriedir i'r Ymgynghoriad Statudol ar yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) gael ei gynnal rhwng 31 Awst 2021 ac 11 Hydref 2021. Esboniwyd bod ymagwedd hybrid wedi'i chynllunio, gyda chymysgedd o arddangosfeydd rhithwir ac arddangosfeydd ffisegol cyfyngedig os bernir bod hynny'n ddiogel ar y pryd, yn unol â chyfyngiadau COVID y Llywodraeth. Cynllunnir

ymgynghoriad symudol ac fe'i hategir gan fentrau ar-lein, fel sesiynau gweminar holi ac ateb gyda chynghorwyr arbenigol. Bydd yr Ymgeisydd yn ceisio sicrhau bod siaradwr Cymraeg yn bresennol ar gyfer y sesiynau i gynorthwyo'r rhai hynny sy'n dymuno cymryd rhan yn Gymraeg.

Mae'r Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned (SoCC) drafft wedi cael ei gytuno gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) cynhaliol ac anghynhaliol, fel Cyngor Sir Ddinbych yn gynnar ym mis Mehefin 2021. Mae'r SoCC terfynol wedi'i gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf 2021 – dechrau mis Awst 2021.

Ceisiodd yr Ymgeisydd gyngor ynglŷn â ph'un a oedd yr Arolygiaeth yn debygol o gyhoeddi unrhyw ganllawiau yn ymwneud â digwyddiadau cyfunol yn y dyfodol agos. Esboniodd yr Arolygiaeth fod y prawf mewnol cyntaf ar gyfer digwyddiad cyfunol newydd gael ei gynnal yn ddiweddar, ac felly nid yw canllawiau'n debygol o gael eu cyhoeddi hyd nes y bydd nifer o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal ac y gellir cymhwyso gwersi a ddysgwyd, fel bod modd i'r cyhoeddiad gynnwys y canllawiau gorau posibl. Gofynnodd yr Arolygiaeth a oedd yr Ymgeisydd wedi ystyried unrhyw gwmnïau clyweledol (AV) hyd yma. Dywedwyd nad oedd sicrhau cwmni AV yn flaenoriaeth ar yr adeg hon, ond bod hynny wedi'i nodi fel gofyniad wrth symud ymlaen. Atgoffodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd fod rhaid i'r cwmni AV allu cynnal digwyddiadau cyfunol gyda chyfieithu ar y pryd. Holodd yr Ymgeisydd a fyddai'n bosibl treialu hyn gyda'r Arolygiaeth. Cadarnhaodd yr Arolygiaeth pan fyddai'r Ymgeisydd wedi penodi cwmnïau AV a chyfieithu, y byddai'r Arolygiaeth yn gallu cynnal treial mewnol, gyda'r cwmnïau hyn yn unig, heb bresenoldeb yr Ymgeisydd.

<u>Rhaglen</u>

Amlinellodd yr Ymgeisydd y llinell amser ddangosol gyda mân ddiweddariadau yn deillio o gynnydd diweddar – dylid nodi bod mwyafrif y dyddiadau allweddol yr un fath. Bwriedir cyflwyno'r cais ar ddiwedd mis Chwefror 2022 a chyflwyno'r cais am Drwydded Forol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar yr un pryd.

## Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) / Trwyddedu Morol, alinio'r broses

<u>Cynnydd</u>

Trafododd yr Ymgeisydd ddyddiadau cyfarfodydd blaenorol gyda rhanddeiliaid a dywedodd fod ei drydydd cyfarfodydd chwarterol wedi'u trefnu ar gyfer mis Medi 2021. Awgrymwyd gohirio'r cyfarfod nesaf â'r Arolygiaeth tan fis Hydref 2021. Byddai hyn yn rhoi digon o amser i'r Ymgeisydd ddarparu gwybodaeth fwy cywir am y dyddiad cyflwyno bwriadedig. Mae cyfarfod gyda Thîm Trwydded Forol CNC wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf 2021.

Mae'r Ymgeisydd o'r farn y byddai'n briodol i CNC fod yn gwneud cynnydd ar y Drwydded Forol ddrafft tra bod penderfyniad yn cael ei wneud ar y DCO drafft, yn hytrach nag aros i waith ystyrlon ddechrau ar ôl i'r cais DCO gael ei benderfynu. Mae'r Ymgeisydd yn teimlo'n fwy hyderus ynglŷn â chydlynu alinio'r DCO a'r Drwydded Forol, a nododd fod cynnydd wedi cael ei wneud yn hyn o beth.

<u>Asesiad gan Burges Salmon</u>

Darparwyd asesiad alinio DCO/Trwydded Forol, a gynhaliwyd gan Burgess Salmon, i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar 8 Mehefin 2021. Rhannodd yr Ymgeisydd siart lif grynhoi a ofynnodd sawl cwestiwn i sbarduno ystyriaethau ymarferol ar gyfer cysylltu'r ddwy broses. Trafodwyd y rhain gyda'r Arolygiaeth ac maen nhw wedi'u cyfeirio'n bennaf at Dîm Trwydded Forol CNC, ond bwriedir eu rhoi i randdeiliaid mewn cyfarfodydd yn y dyfodol hefyd. Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai'n ddefnyddiol petai Datganiad Tir Cyffredin cynhwysfawr yn cael ei gytuno gyda CNC i roi diweddariad i'r Awdurdod Archwilio (ExA) ar gynnydd o ran y Drwydded Forol. Fe allai hefyd fod yn ddefnyddiol i'r ExA pe gallai'r Ymgeisydd ddarparu Datganiad Cyffredinedd, os caiff ei ddiweddaru'n rheolaidd yn ystod yr Archwiliad os derbynnir y cais.

## Y camau nesaf ac unrhyw fater arall

Rhoddodd yr Arolygiaeth wybod i'r Ymgeisydd am ei menter 'cyflymder prosiect' barhaus. Ni ddylai hyn effeithio ar yr Ymgeisydd ar hyn o bryd, ond dywedwyd wrtho y dylai fod yn ymwybodol o newidiadau posibl yn nhîm y prosiect yn y dyfodol. Bydd yr Arolygiaeth yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Ymgeisydd cyn gynted ag y bydd ar gael. Esboniodd yr Arolygiaeth nad oes bwriad ar hyn o bryd i ddiweddaru Nodiadau Cyngor cyn i'r Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft newydd ar Ynni gael ei gyhoeddi'n fuan. Fodd bynnag, nodwyd bod AN14 (llunio'r Adroddiad Ymgynghori) wedi cael ei ddiwygio'n ddiweddar, oherwydd cyhoeddwyd y fersiwn ddiwethaf yn 2014.

Dywedodd yr Arolygiaeth y bydd y wefan Seilwaith Cenedlaethol yn cael ei diweddaru'n fuan i fod yn fwy greddfol a hwylus i'w llywio o ran ble y caiff dogfennau eu storio, mewn ffordd sy'n haws i ddefnyddwyr ddod o hyd iddynt. Cadarnhaodd hefyd y bydd y cyfieithiad Cymraeg o'r adroddiad sgrinio trawsffiniol wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi ar dudalen y prosiect ar y wefan yn fuan.

Holodd yr Arolygiaeth ynglŷn â'r diffiniadau mewn Adroddiadau Ymgynghori a gyflwynwyd yn ddiweddar mewn perthynas â nifer y bobl sydd wedi ymweld â gwefannau ymgynghori'r Ymgeisydd yn ddiweddar. Mae'r mater hwn wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i'r ddibyniaeth ar ddulliau ymgynghori rhithwir oherwydd y pandemig. Mae natur ymgynghori rhithwir yn golygu bod angen bod yn gyson ac yn gywir, gan fod amryw ffyrdd o gynyddu niferoedd ymwelwyr â gwefan yn artiffisial trwy adnewyddu'r wefan sawl gwaith, felly mae'n bwysig diffinio beth a olygir wrth ymweliad â'r wefan yn yr Adroddiad Ymgynghori.

## *Penderfyniadau penodol/ angen gwneud gwaith dilynol?*

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Yr Ymgeisydd i ymchwilio i gwmni AV sy'n gallu cynnal digwyddiadau cyfunol

The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Meeting note

| | |
|---|---|
| **Project name** | Awel y Môr |
| **File reference** | EN010112 |
| **Status** | **Final** |
| **Author** | The Planning Inspectorate |
| **Date** | 24 June 2021 |
| **Meeting with** | Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited |
| **Venue** | Microsoft Teams |
| **Meeting objectives** | Project update meeting |
| **Circulation** | All attendees |

## Summary of key points discussed and advice given

The Planning Inspectorate (the Inspectorate) advised that a note of the meeting would be taken and published on its website in accordance with section 51 of the Planning Act 2008 (the PA2008). Any advice given under section 51 would not constitute legal advice upon which applicants (or others) could rely.

The Applicant outlined the agenda and the topics of discussion for the meeting.

## Project reminder / context

The Applicant provided statistics on the project's location and described progress on site selection for the array and offshore cable route. Since the previous meeting with the Inspectorate, the Applicant has removed the western tip of the array from its Order Limits as a result of recent consultation on site selection. Further refinement of the onshore cable route was discussed with optionality remaining at key points. The Order Limits as presently envisaged will be subject of Statutory Consultation, later this year.

## Project update

Statutory consultation planning

The Applicant explained how Statutory Consultation on the Preliminary Environmental Information Report (PEIR) was planned to take place between 31 August 2021 and 11 October 2021. It was explained how a hybrid approach for consultation is planned, with a mix of virtual and limited physical exhibitions if deemed safe at the time, in accordance with Government COVID restrictions. Mobile consultation is planned and supplemented with online initiatives, such as webinar Q&A sessions with expert advisors. The Applicant

will seek to ensure that a Welsh speaker is present for the sessions to assist those wishing to participate in Welsh.

The draft Statement of Community Consultation (SoCC) has been agreed with host and non-host Local Planning Authorities (LPA), such as Denbighshire County Council in early June 2021. The final SoCC is planned for July 2021 – early August 2021.

The Applicant sought advice on whether any guidance relating to blended events was likely to be published by the Inspectorate in the near future. The Inspectorate explained how the first internal test for a blended event has only recently taken place and as such, guidance is not likely to be published until a number of events have been held and lessons learnt can be applied so the best possible guidance can be detailed in the publication. The Inspectorate asked whether the Applicant had considered any audio/visual (AV) companies to date. It was noted that at this stage securing an AV company has not been a priority, however it is noted as a requirement going forward. The Inspectorate reminded the Applicant that the AV company must be able to conduct blended events with simultaneous translation. The Applicant queried whether a potential trial run would be possible with the Inspectorate. The Inspectorate confirmed that once AV and translation companies had been appointed by the Applicant, it would be possible for the Inspectorate to hold an internal trial run, solely with those companies, without the Applicant’s attendance.

<u>Programme</u>

The Applicant outlined the indicative timeline with slight updates resulting from recent progress – it should be noted that the majority of key dates remain the same. The application submission is planned for the end of February 2022 with the Marine Licence application submitted to Natural Resources Wales (NRW) in parallel.

## DCO / Marine Licensing, process alignment

<u>Progress</u>

The Applicant discussed previous meeting dates with stakeholders and how its third quarterly meetings were scheduled for September 2021. It was suggested that the next meeting with the Inspectorate be delayed until October 2021. This would allow the Applicant sufficient time to provide more accurate information on the planned submission date. A meeting with NRW Marine License Team (MLT) is scheduled for July 2021.

The Applicant believes it would be appropriate for NRW to be making progress on the draft Marine Licence (ML) whilst the draft DCO is being determined, rather than waiting for meaningful work to begin once the DCO application has been determined. The Applicant feels more confident around the coordination of aligning the DCO and ML, and it noted that progress has been made in this regard.

<u>Assessment by Burges Salmon</u>

A DCO/ML alignment assessment, carried out by Burgess Salmon, was provided to BEIS on 8 June 2021. The Applicant shared a summary flowchart which asked several

questions to drive practical considerations for linking the two processes. These were discussed with the Inspectorate and are mainly aimed at NRW-MLT but are also intended to be provided to stakeholders in future meetings. The Inspectorate noted how it would be helpful if a comprehensive Statement of Common Ground were agreed with NRW to update the Examining Authority (ExA) on progress with the ML. It may also be useful for the ExA if the Applicant could provide a Statement of Commonality, if updated regularly during the Examination should the application be accepted.

**Next steps & AOB**

The Inspectorate made the Applicant aware of its ongoing 'project speed' initiative, this should not affect the Applicant in the immediate instance, however, it was noted to be aware of potential changes in the project team in future. The Inspectorate will inform the Applicant as soon as more information is available. The Inspectorate explained how there were no immediate plans to update Advice Notes (AN) prior to the upcoming replacement draft Energy NPS being issued. It was noted however, that AN14 (compiling the Consultation Report) has recently been refreshed, due to the last version being issued in 2014.

The Inspectorate noted that the National Infrastructure website will soon be updated to be more intuitive and navigable in terms of where documents are stored, in a way that is easier to find for users. It also confirmed that the Welsh translation of the updated transboundary screening will be published on the project page of the website soon.

The Inspectorate queried definitions within Consultation Reports that had been submitted recently in relation to the number of people who have visited recent Applicant's consultation websites. This issue has come to the fore due to the reliance on virtual consultation methods as a result of the Pandemic. There is a need for consistency and accuracy due to the nature of virtual consultation, as there is a variety of ways to artificially inflate website visit numbers by refreshing the website multiple times, therefore it is important to define what constitutes a visit to the website in the Consultation Report.

***Specific decisions/ follow-up required?***

The following actions were agreed:

- Applicant to investigate AV company with capabilities to hold blended events